

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan, Llantarnam
Dental**

16 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	CyflenwiSafonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	14
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	17
6.	Y Camau Nesaf.....	18
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Lantarnam Dental yn Heol Llantarnam, Cwmbrân, NP44 3BH, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 16 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Llantarnam Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Cwmbrân, Casnewydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Llantarnam Dental yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd (un prif ddeintydd, un orthodontydd, un llawfeddyg sy'n arbenigo mewn mewnbliadau, ac un deintydd sy'n cwblhau ei hyfforddiant sylfaenol ar ôl cymhwyso), tair nyrs ddeintyddol, un derbynnydd, ac un cydlynnydd practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Gwynnu dannedd
- Mewnbliadau deintyddol
- Deintyddiaeth gosmetig
- Orthodonteg

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio'r ffordd y mae Llantarnam Dental yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r driniaeth. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Yn gyffredinol, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi gyda'r bwriad o gyflenwi gwasanaeth diogel, o ansawdd uchel i gleifion. Gwelsom feddyginiaethau brys wedi'u gosod yn benodol o drefnus, a chyfleusterau clinigol glân a graenus. Ar y cyfan, roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffeg, gwaredu gwastraff, a dadebru a chymorth cyntaf. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw i safon ansawdd uchel. Gwnaethom nodi bod angen gwella gweithdrefnau dadheintio'r practis, a gwnaethom ofyn i'r practis ddatrys dwy agwedd ar y rhain ar unwaith. Derbyniwyd sicrwydd digonol gennym fod y practis wedi mynd i'r afael â'r materion hyn yn dilyn yr arolygiad. Rhaid i'r practis wella ei weithdrefnau dadheintio er mwyn lleihau'r risg o haint a lledaenu heintiau.

Gwelsom dîm staff ymroddedig, brwdfrydig, a oedd yn canolbwyntio ar y claf, a dywedasant wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi. Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ynghylch cyflwyno cwyn yn glir, yn drefnus, ac wedi'u rheoli'n dda. Roedd trefniadau priodol ar waith mewn perthynas â gwiriadau staff, diogelu plant ac oedolion, a gweithdrefnau a pholisïau'r practis. Roedd systemau monitro a gweinyddol cadarn ar waith.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r driniaeth. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion at y practis, ac roedd 18 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru yn y practis ers rhwng tair a 25 o flynyddoedd.

Dyweddodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron wrthym eu bod yn fodlon ar y driniaeth roeddent wedi'i derbyn yn y practis, a bod y staff wedi estyn croeso iddynt. Dywedodd mwyafrif helaeth y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi cyn cael eu gweld gan y deintydd. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Yn ystod y 25 mlynedd diwethaf, rydw i wedi derbyn gofal ardderchog wrth y practis hwn, ac mae fy ngŵr hefyd yn cytuno. Mae'r tîm fan hyn yn broffesiynol iawn - rwy'n sicr na fyddwn i'n newid"

"Rydw i'n fodlon iawn ar y practis deintyddol"

"Ni allem fod wedi derbyn triniaeth well yn unrhywle arall"

"Mae fy nhriniaeth bob amser wedi bod yn ardderchog. Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar ac yn rhoi sicrwydd i mi. Bob amser wedi cael profiad da"

"Mae'r deintydd a'r staff bob amser yn gwrtais, yn effeithlon, ac yn gyfeillgar"

"Derbynnydd cyfeillgar iawn"

Pan wnaethom ofyn i'r cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaethau, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth roedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau'r cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaethau'n cynnwys y canlynol:

"Mae'r deintydd bob amser yn egluro unrhyw weithdrefnau"

"Bob amser yn cael digon o wybodaeth"

Dyweddodd y cleifion i gyd eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol tu allan i oriau. Gwnaethom wirio neges peiriant ateb y practis y tu allan i oriau'r swyddfa, a chawsom fod gwybodaeth wedi'i recordio ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw y tu allan i oriau gwaith. Roedd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei darparu i gleifion yn nhaflen wybodaeth y practis.

Roedd y practis yn cynnig apwyntiadau rheolaidd ac apwyntiadau brys. Roedd y practis ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 9am a 5pm (ar gau am un awr ar gyfer cinio o 1pm) a dydd Gwener rhwng 9am a 4pm (ar gau am hanner awr o 12.15pm).

Nododd mwyafrif y cleifion yn yr holiaduron eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai'r angen yn codi. Gwelsom fod y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn amlwg yn y man aros a bod rhywfaint o wybodaeth ynghylch cwynion ar gael yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Roedd y practis yn cynnal arolygon parhaus o fodlonrwydd cleifion, ac roedd y rhain yn holi ynghylch profiad y cleifion yn y practis. Gwelsom fod y practis wedi dadansoddi'r adborth hwn er mwyn eu galluogi i ddatrys unrhyw faterion a gwneud gwelliannau yn seiliedig ar adborth gan gleifion. Roedd y staff hefyd yn cofnodi adborth anffurfiol wrth gleifion fel ffordd arall o ymateb i farn ac anghenion y cleifion.

Roedd amrywiaeth eang o ddeunydd hyrwyddo iechyd ar gael yn y dderbynfa/man aros. Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael, ac roeddent yn cynnwys crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol am y practis. Roedd gan y practis wefan llawn gwybodaeth a oedd yn llwyr fodloni'r canllawiau a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Golygai hyn y gallai'r cleifion gael mynediad at wybodaeth am y practis drwy nifer o ddulliau.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi gyda'r bwriad o gyflenwi gwasanaeth diogel, o ansawdd uchel i gleifion. Gwelsom feddyginiaethau brys wedi'u gosod yn benodol o drefnus, a chyfleusterau clinigol glân a graenus. Ar y cyfan, roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffeg, gwaredu gwastraff, a dadedbru a chymorth cyntaf, ac roedd cofnodion cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel. Derbyniwyd sicrwydd digonol gennym fod y practis wedi mynd i'r afael â'r materion hyn yn dilyn yr arolygiad. Gwnaethom nodi bod angen gwella gweithdrefnau dadheintio'r practis, a gwnaethom ofyn i'r practis ddatrys dwy agwedd ar y rhain ar unwaith. Rhaid i'r practis wella ei weithdrefnau dadheintio er mwyn lleihau'r risg o haint a lledaenu heintiau.

Offer/dogfennau radiograffeg

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw, a phroffion, ac roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Roedd y practis wedi dilyn yr holl weithdrefnau perthnasol i hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ei fod yn defnyddio cyfarpar radiograffeg. Cynhaliwyd archwiliadau sicrwydd ansawdd er mwyn monitro ansawdd delweddau, ac roedd hyn yn golygu bod gwiriadau ar waith i sicrhau bod y cyfarpar radiograffeg yn parhau i gael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Dadebru a chymorth cyntaf

Gwelsom fod siart lif gyffredinol ar waith a oedd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r staff ynglŷn â sut i ymdrin â gwahanol argyfyngau meddygol. Dangosodd trafodaethau gydag aelodau staff eu bod yn wybodus ynglŷn â beth i'w wneud pe bai argyfwng meddygol. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis bolisi dadebru ar waith i amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau pob aelod o staff (staff newydd neu staff presennol) yn glir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod polisi dadebru ysgrifenedig ar waith, fel bod swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff yn glir ac wedi'u ffurfioli pe bai argyfwng meddygol.

Roedd un aelod o staff wedi cael ei benodi i fod yn gyfrifol am gymorth cyntaf ar y safle. Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar cymorth cyntaf priodol pe bai argyfwng meddygol (llewygu). Gwelsom fod y dyddiad wedi dod i ben ar yr offer llwybrau anadlu untro, a gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau ei fod yn gwirio dyddiadau dod i ben ar offer argyfwng.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn gwirio dyddiadau dod i ben ar offer argyfwng a'i fod yn prynu offer newydd yn eu lle pan fydd eu hangen.

Roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru o fewn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU).

Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys

Roedd cyffuriau brys wedi eu storio'n ddiogel mewn lleoliad da a diogel, ac roeddent wedi'u trefnu'n dda er hwyluster. Roedd system ar waith i fonitro dyddiadau dod i ben cyffuriau, ac roedd yr holl gyffuriau a welsom o fewn eu dyddiad defnyddio. Roedd y padiau rhagnodi hefyd wedi'u cadw'n ddiogel er mwyn atal pobl rhag mynd atynt heb ganiatâd. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer ymateb i unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac i adrodd y digwyddiadau hyn.

Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff clinigol cyfredol ar waith. Roedd polisi a gweithdrefn gyfredol ar waith ar gyfer trin mercwri yn ddiogel.

Dadheintio offer a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1)

Ar y cyfan, gwelsom fod risg gynyddol i bobl gael niwed oherwydd nad oedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliad 14(6) a Safon 2.4 y Safonau Iechyd a Gofal. Mae hyn oherwydd nad oedd trefniadau addas ar waith yn y practis i leihau'r risg o haint a lledaenu heintiau. Caiff materion penodol o ran hyn eu gosod isod.

Roedd gan y practis ystafell sengl at ddibenion glanhau a sterileiddio offer deintyddol, ac yna roedd staff yn cludo offer at yr ystafelloedd triniaeth er mwyn eu rhoi mewn bagiau. Gwnaeth staff arddangos y gweithdrefnau dadheintio maen nhw'n eu dilyn er mwyn ein galluogi i asesu sut roedd y rhain yn gweithio'n ymarferol.

Gwelsom fod pob aelod o staff sy'n cynnal gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant priodol i ddangos cymhwysedd yn eu dyletswyddau. Roedd sinciau penodol ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth ar gyfer golchi dwylo, ac roedd cyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff.

Gwelsom fod yr ystafell ddadheintio'n cael ei defnyddio at ddibenion cymysg, a'i bod hefyd yn cael ei defnyddio fel cegin i'r staff ac ardal i storio bwyd. Yn yr ardal 'fudr', roedd cypyrddau a oedd yn storio bwyd y staff. Roedd cypyrddau'n cael eu cadw ar gau, ac roedd y bwyd wedi'i selio, ond roedd y staff yn mynd at y cypyrddau drwy gydol y dydd. Roedd tegell ac oergell hefyd lle roedd staff yn storio eu bwyd ac yn paratoi diodydd poeth yn yr ystafell ddadheintio.

Gwnaethom anfon llythyr sicrwydd ar unwaith at y practis a gofyn iddynt sicrhau bod bwyd ac offer y cegin yn cael eu cadw a'u storio ar wahân i'r ystafell ddadheintio er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio, a chawsom sicrwydd digonol ganddynt eu bod wedi mynd i'r afael â hyn.

Gwelsom nad oedd llyfrau cofnodion ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal i gofnodi gwiriadau dechrau na diwedd y dydd ar gyfer yr awtoclaf. Roedd hyn yn golygu nad oedd unrhyw dystiolaeth bod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal i sicrhau bod offer yn gweithio'n iawn. Gofynnwyd i'r practis drwy lythyr sicrwydd ar unwaith i sicrhau bod y gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05,⁴ a chawsom gadarnhad digonol ganddynt eu bod wedi mynd i'r afael â hyn.

Gwelsom fod y practis yn agor y drws cefn er mwyn cael awyr iach yn yr ystafell ddadheintio. Roedd drysau eraill yn yr ystafell ddadheintio hefyd yn cael eu hagor er mwyn helpu i gael awyr iach o'r ardaloedd eraill yn y practis. Golygai hyn nad oedd awyr "budr" yn cael ei awyru'n briodol, yn unol â'r hyn a nodwyd ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a gallai hyn gynyddu'r risg bod offer wedi'u prosesu (offer glân) yn cael eu heintio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gymryd camau priodol i sicrhau bod llif yr aer yn yr ystafell ddadheintio yn symud o'r ardal lân i'r ardal fudr, yn unol â'r hyn a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

⁴Mae **Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05** yn darparu canllawiau wedi'u diweddarau yn benodol ar gyfer gwasanaethau aciwt a gofal sylfaenol ar ddadheintio dyfeisiadau meddygol yng Nghymru.

Yn dilyn y broses ddadheintio, gwnaeth staff gludo'r offer deintyddol i'r ystafelloedd triniaeth mewn cynhwysyddion wedi'u selio, er mwyn eu rhoi mewn bagiau yn yr ystafelloedd hyn. Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried creu ardal lân gyda mwy o faint yn yr ystafell ddadheintio, er mwyn eu galluogi i orffen prosesu offer yn yr ardal hon, gan leihau'r perygl i gleifion o groes-heintio ymhellach.

Gwelsom fod yr offer a oedd wedi'u prosesu yn cael eu storio mewn cwpwrdd i'w sychu yn yr aer, a hynny weithiau hyd at awr, cyn cael eu cludo i ystafelloedd triniaeth i gwblhau'r broses o'u rhoi mewn bagiau. Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn nodi y dylai offer gael eu sychu mewn lliain sy'n rhydd wrth lint cyn gynted ag iddynt oeri.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 er mwyn sicrhau bod offer yn cael eu sychu ar ôl sterileiddio gan lieiniau di-lint cyn eu rhoi mewn pecynnau, lle defnyddir diheintyddion "heb wactod" (math N).

Roedd yr holl offer yn cael eu bagio ar ôl iddynt gael eu sterileiddio, gyda dyddiad prosesu a dyddiad dod i ben yn cael eu nodi ar y pecynnau. Roedd yr holl offer a wiriwyd o fewn eu dyddiad, a dywedwyd wrthym fod system anffurfiol ar waith er mwyn i nyrsys wirio dyddiadau dod i ben pan oeddent yn glanhau'r ystafelloedd triniaeth. Er mwyn lleihau'r risg o ddefnyddio offer y tu hwnt i'w dyddiadau dod i ben, gwnaethom gyngori'r practis i ffurfioli'r broses o wirio dyddiadau dod i ben.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddefnyddio proses wedi'i ffurfioli ar gyfer gwirio dyddiadau dod i ben, er mwyn lleihau'r risg o ddefnyddio offer sydd wedi cyrraedd eu dyddiadau dod i ben.

Gwelsom y staff yn defnyddio'r un sinc ar gyfer glanhau â llaw a rinsio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn defnyddio dwy sinc ar wahân (neu sinc a bowlen), un ar gyfer golchi a glanhau'r offer, a'r ail ar gyfer rinsio, i leihau'r risg o offer yn cael eu heintio eto wrth iddynt gael eu glanhau.

Gwelsom nad oedd y practis wedi cynnal archwiliad trosfwaol o'i ofynion rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd 01-05. Golygai

hyn nad oedd gofynion rheoli heintiau dan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 wedi cael eu nodi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gynnal archwiliad o'i weithdrefnau dadheintio er mwyn asesu cydymffurfedd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 fel canllaw sylfaenol a gwneud gwelliannau yn ôl yr angen, yn ddibynnol ar ganfyddiadau'r archwiliad.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gweld eu bod yn lân, yn daclus ac yn drefnus, a'u bod yn cynnwys yr holl gyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff. Ar y cyfan, canfuom fod y cyfleusterau clinigol o safon uchel.

Roedd niferoedd digonol o offer deintyddol a chyfarpar, i gyd mewn cyflwr da, wedi eu storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom gyflenwad digonol o eitemau untro a chyfarpar diogelu.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgydd (dyfais fecanyddol sy'n cywasgu aer i'w storio, er mwyn iddo gael ei ddefnyddio i bweru offer llaw ac amryw offerynnau deintyddol eraill) wedi'i gynnal a'i gadw a'i archwilio yn unol â'r gofynion. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal, er mwyn gwirio bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom fod soffas defnydd mewn dwy o'r ystafelloedd triniaeth, o fewn ardal heintio'r gadair ddeintyddol. Golygai hyn fod risg y gallai'r soffas gael eu heintio, ac oherwydd nad oedd y defnydd yn wrth-ddŵr, nid oedd yn bosibl i'w dadheintio'n llwyr. Gwnaethom gynghori'r practis i symud y soffas o'r ystafelloedd triniaeth i leihau'r risg o groes-heintio i'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y gall y seddau yn yr ystafelloedd triniaeth gael eu dadheintio'n llwyr.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd safon cofnodion y cleifion yn y practis yn dda, gyda digon o gofnodion ar gyfer gofal a thriniaethau cleifion.

Gwelsom fod deintyddion yn casglu hanes meddygol ysgrifenedig oddi wrth gleifion newydd, ac roedd y rhain yn cael eu llofnodi gan y claf a'r deintydd. O hynny ymlaen, yn ystod pob ymweliad, dangosodd y cofnodion fod deintyddion yn gwirio gyda'r cleifion ar lafar p'un a oedd eu hanes meddygol wedi newid, ond nid oeddent yn cofnodi hanes meddygol llawn, wedi ei ddiweddarau, nac yn gofyn am lofnodion. Gwnaethom gynghori'r practis mai'r arfer gorau yw casglu hanes meddygol ysgrifenedig cyfredol ar gyfer pob cwrs newydd o driniaeth neu wrth ddod i wybod am ddigwyddiadau meddygol newydd o bwys, er mwyn sicrhau bod tystiolaeth lawn o ddeintyddion yn diweddarau anghenion meddygol cleifion.

Gwelsom nad oedd yr orthodontydd a oedd yn ymweld â'r practis yn cofnodi gwybodaeth ddeintyddol sylfaenol nac archwiliadau o feinwe meddal ar feddalwedd y practis. Golygai hyn nad oedd gwybodaeth lawn y cleifion ar gael yn yr achosion hyn, pe bai angen cael hyd iddi.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r holl ddeintyddion gofnodi gwybodaeth ddeintyddol sylfaenol ac archwiliadau o feinwe meddal yng nghofnodion y cleifion i sicrhau bod y cofnodion yn cynnwys y manylder priodol.

Gwelsom fod y deintyddion yn casglu ac yn cofnodi cydsyniad y cleifion i dderbyn triniaeth. Gwelsom hefyd fod y deintyddion yn cofnodi cynlluniau triniaeth a dewisiadau o ran triniaeth yn gyson.

Gwelsom fod hanes cymdeithasol cleifion yn cael ei ystyried, a, lle bo hyn yn briodol, roedd y deintyddion yn cynnig cyngor am roi'r gorau i ysmegu. Roedd deintyddion yn gwneud atgyfeiriadau priodol at aelodau iechedd proffesiynol eraill yn ôl yr angen.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dîm staff ymroddedig, brwdfrydig, a oedd yn canolbwyntio ar y claf, a dywedasant wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi. Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ynghylch cyflwyno cwyn yn glir, yn drefnus, ac wedi'u rheoli'n dda. Roedd trefniadau priodol ar waith mewn perthynas â gwiriadau staff, diogelu plant ac oedolion, a gweithdrefnau a pholisïau'r practis. Roedd systemau monitro a gweinyddol cadarn ar waith.

Staff

Cafodd y practis ei agor yn 1987. Roedd y practis yn darparu gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat. Roedd cydlynedd practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn ymroddedig, ac yn canolbwyntio ar y cleifion, a dywedasant wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth.

Roedd pob deintydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a gwelsom sampl o gontractau cyflogaeth ym meddiant y cyflogeion. Gwelsom fod yr holl staff clinigol yn meddu ar yswiriant indemniad am eu hymarfer clinigol.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwelsom fod staff wedi cyflwyno ceisiadau i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ddiweddarau eu tystysgrifau lle bo angen.

Gwelsom fod tystysgrifau ar gyfer pob un o'r deintyddion, yn cadarnhau eu cofrestriad, wedi'u harddangos yn y practis, fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Gwnaethom gynghori'r practis bod angen i ddau ddeintydd ddiweddarau eu tystysgrifau er mwyn sicrhau bod cyfeiriad AGIC yn gyfredol, ac fe wnaethant gytuno i drefnu hyn.

Gwelsom gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer yr holl staff clinigol.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus oedd wedi'i gwblhau gan y staff clinigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi.

Gwelsom gofnodion o'r cyfarfodydd tîm, a dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom fod amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod, a bod aelodau o'r tîm yn cyflwyno eu pryderon a'u

testunau eu hunain i'w trafod. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd rhai arferion wedi newid o ganlyniad i drafodaethau mewn cyfarfodydd tîm. Roedd hyn yn golygu bod gan y tîm le mwy ffurfiol i drafod pryderon, a'u bod yn dysgu o ganlyniad i hyn, er mwyn gwella'r practis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd, a gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau hyn. Roedd hyn yn golygu bod gan staff fynediad at gyfarfodydd ffurfiol ar gyfer cymorth a datblygiad proffesiynol.

Amddiffyn plant ac oedolion

Gwelsom fod yr aelodau staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion. Roedd polisi diogelu plant ac oedolion ar waith, ac roedd manylion cyswllt lleol wedi'u harddangos er mwyn hwyluso mynediad atynt, pe bai angen i aelod o staff wneud atgyfeiriad.

Cwynion a sicrwydd ansawdd

Gwnaethom edrych yn fanwl ar y weithdrefn gwyno a gweld ei bod yn cydymffurfio â gofynion 'Gweithio i Wella'⁵ y GIG. Roedd gweithdrefn gwyno ar wahân a oedd yn ymdrin â'r trefniadau ar wahân ar gyfer cleifion preifat, ac roedd hon yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi'n glir a chyda digon o fanylion am y camau yr oedd y practis wedi eu cymryd i ymdrin â chwynion. Roedd y cwynion yn cael eu dal yn ganolog, ar wahân i gofnodion y cleifion. Roedd sylwadau a phryderon llafar yn cael eu cofnodi hefyd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfforddus wrth godi pryderon gyda'r rheolwyr ac yn uniongyrchol gyda'r deintyddion. Roedd polisi chwythu'r chwiban wedi'i sefydlu, a gallai'r staff ei ddefnyddio i godi ac i uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol.

Roedd y practis yn aelod o raglen arferion gorau (sicrhau ansawdd) Cymdeithas Ddeintyddol Prydain. Gwelsom fod adolygiadau ac archwiliadau gan gymheiriaid wedi digwydd yn y practis. Golygai hyn fod gan y practis

⁵ Nod **Gweithio i Wella** oedd ei gwneud hi'n haws i gleifion a gofalwyr leisio pryderon.

Cyflwynodd ddull unigol a mwy cyfannol, gan ddod â'r broses o reoli cwynion, digwyddiadau a honiadau at ei gilydd, yn seiliedig ar yr egwyddor "archwiliwch unwaith, archwiliwch yn dda".

systemau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaethau yr oeddent yn eu darparu, er mwyn sicrhau eu bod yn gwella'n barhaus.

Roedd staff yn defnyddio dull rheoli calendr i gadw golwg ar ba bryd roedd angen diweddarau agweddau ar y practis, megis polisïau a dyddiadau dod i ben meddyginiaethau. Gwelsom fod hyn yn helpu'r practis i fod yn benodol o drefnus wrth fonitro trefniadau parhaus.

Polisïau a gweithdrefnau

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw ar waith, a'u bod wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

Roedd y practis wedi'i leoli yn ardal Cwmbrân, yn Nhorfaen. Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr daear, ac roedd tair ystafell driniaeth ynddo. Roedd maes parcio ar gael ar y safle.

Roedd y practis yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, ac roedd toiled i'r cleifion a oedd yn gwbl hygyrch.

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, y tu mewn a'r tu allan, ac roedd wedi cael ei adnewyddu yn 2011 gan ddarparu amgylchedd modern a chyfforddus. Yn fewnol, roedd yr amgylchedd yn ddigon golau, cynnes, glân a thaclus, ac roedd digon o awyr iach.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion wedi'i harddangos y tu allan a'r tu mewn. Roedd arwydd y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion, yn ogystal â'r amseroedd agor a'r rhifau cyswllt y gallai'r cleifion eu ffonio mewn argyfwng. Roedd rhestrau prisiau i gleifion y GIG a chleifion preifat wedi'u harddangos yn glir yn y dderbynfa.

Roedd cyfleusterau priodol a digonol ar gael ar gyfer staff, a thŷ bach ar wahân iddynt.

Roedd y toiledau i'w gweld yn lân, ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau ymolchi dwylo addas er mwyn lleihau croes-heintio.

Roedd yr ardal aros o faint priodol ar gyfer nifer y cleifion a oedd yn aros i dderbyn triniaeth ar ddiwrnod ein harolygiad. Roedd gan staff y dderbynfa ddealltwriaeth dda o sut i gynnal cyfrinachedd cleifion. Roedd yr ystafell aros yn cynnwys deunydd darllen a phosteri a thafleini hyrwyddo iechyd.

Roedd arwydd ar gyfer yr allanfa dân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio. Roedd mesurau diogelwch priodol wedi'u sefydlu er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad.

Roedd cofnodion cleifion wedi eu storio dan glo, ac roedd copi wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael ei wneud yn awtomatig. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn cymryd rhagofalon priodol i ddiogelu gwybodaeth am y cleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Llantarnam Dental yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol:

Cynllun Gwella

Practis:

Deintyddfa Llantarnam

Dyddiad yr arolygiad:

15 Mehefin 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
	Dim byd wedi'i nodi			
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal			
8	Dylai'r practis sicrhau bod polisi dadebru ysgrifenedig ar waith, fel bod swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff yn glir ac wedi'u ffurfioli pe bai argyfwng meddygol. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6]	Byddwn yn cytuno â'r hyfforddwr adfywio cardio-pwlmonaidd yn ystod y diwrnod hyfforddiant nesaf. Ionawr 2016	Tîm Harker	Ionawr 2016
9	Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn gwirio dyddiadau dod i ben ar offer argyfwng a'i fod yn prynu offer newydd yn eu lle pan fydd eu hangen.	Byddwn yn ychwanegu hyn at y rhestr gyffuriau ac yn ei wirio bob mis.	Tîm Harker	Ar unwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
10	<p>Dylai'r practis gymryd camau priodol i sicrhau bod llif yr aer yn yr ystafell ddadheintio yn symud o'r ardal lân i'r ardal fudr, yn unol â'r hyn a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.</p> <p>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, 6.44]</p>	Caiff ffan echdynnu ei gosod wrth gwblhau gwaith adeiladu i wahanu'r gegin a'r ardal ddadheintio.	Tîm Harker	Ionawr 2016
11	<p>Dylai'r practis sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 er mwyn sicrhau bod offer yn cael eu sychu ar ôl sterileiddio gan lieiniau di-lint cyn eu rhoi mewn pecynnau, lle defnyddir diheintyddion "heb wactod" (math N).</p> <p>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, 2.4j (i)]</p>	Prynwyd llienau di-lint.	Tîm Harker	Ar unwaith
11	<p>Dylai'r practis ddefnyddio proses wedi'i ffurfioli ar gyfer gwirio dyddiadau dod i ben, er mwyn lleihau'r risg o ddefnyddio offer sydd wedi cyrraedd eu dyddiadau dod i ben.</p> <p>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05]</p>	Dyddiadau dod i ben wedi cael eu hychwanegu at restr gyfredol o archwiliadau dadheintio i'w cynnal bob tri mis.	Tîm Harker	Ar unwaith
11	Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn defnyddio	Mae dwy sinc yn cael eu defnyddio bellach.	Tim Harker	Ar unwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>dwu sinc ar wahân (neu sinc a bowlen), un ar gyfer golchi a glanhau'r offer, a'r ail ar gyfer rinsio, i leihau'r risg o offer yn cael eu heintio eto wrth iddynt gael eu glanhau.</p> <p>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, 2.4 r]</p>			
11	<p>Dylai'r practis gynnal archwiliad o'i weithdrefnau dadheintio er mwyn asesu cydymffurfedd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 fel canllaw sylfaenol a gwneud gwelliannau yn ôl yr angen, yn ddibynnol ar ganfyddiadau'r archwiliad.</p> <p>[Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, 2.23]</p>	<p>Mae archwiliadau eisoes yn cael eu gwneud bob 3 mis. Byddwn yn cynnal archwiliad dadheintio gyda'r Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig yn ystod y cylch academaidd nesaf.</p>	Tim Harker	Hydref 2015
12	<p>Rhaid i'r practis sicrhau y gall y seddau yn yr ystafelloedd triniaeth gael eu dadheintio'n llwyr.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.4]</p>	<p>Bydd y seddau yn cael eu newid fel rhan o raglen addasu'r adeilad.</p>	Tim Harker	31 Ionawr 2016
12	<p>Dylai'r holl ddeintyddion gofnodi gwybodaeth ddeintyddol sylfaenol ac archwiliadau o feinwe meddal yng nghofnodion y cleifion i sicrhau bod y cofnodion yn cynnwys y manylder priodol.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal, Safon 3.5]</p>	<p>Mae hyn bellach ar waith.</p>	Toni-Marie Davies	Ar unwaith

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
	Dim byd wedi'i nodi			
	Ansawdd yr Amgylchedd			
	Dim byd wedi'i nodi			

Cynrychiolydd y practis:

Enw (llythrennau bras)Tim Harker.....

Teitl:Prif Ddeintydd.....

Dyddiad:4 Awst 2015.....